Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Bryn Tabor**

**Ysgol Bryn Tabor**
**Heol Maelor, Coedpoeth**
**Wrecsam**
**LL11 3NB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/05/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Bryn Tabor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Bryn Tabor |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers cofrestru ar 6 Ionawr 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

*“Arolygiad a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19 yw hwn felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.”*

Cydnabyddir y bu rhwystrau i ddatblygu'r gwasanaeth hwn yn gyson ers ei gofrestru ar 6 Ionawr 2020 wrth iddo gau yn aml o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19. Er hynny, mae'r plant yn fodlon eu byd, ac maent yn mwynhau eu hunain yn y gwasanaeth hwn, am eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn brysur yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn ddiogel, yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff galluog yn gofalu am y plant yn dda ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig ac yn deg, ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Maent yn brofiadol ac yn darparu gweithgareddau diddorol er mwyn helpu'r plant i ddatblygu'n dda.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac mae digonedd o ardaloedd chwarae a gweithgareddau wedi'u gosod allan i feithrin sgiliau. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored yn addas ar gyfer y plant. Mae digonedd o deganau a gemau ar gael, ac mae'r rhain mewn cyflwr da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol ac mae hyn yn sicrhau lefel dda o ofal ar gyfer y plant. Maent yn gwneud gwelliannau er budd y plant a'u teuluoedd. Maent yn cefnogi tîm o staff ymroddedig. Mae partneriaethau llwyddiannus a chadarn â'r rhieni a'r ysgol, sy'n helpu'r plant i deimlo'n gartrefol ac yn helpu eu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

## Llesiant

Mae gan y plant lais a gallant ddylanwadu ar eu gofal, megis cael dewis o fyrbrydau. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Maent yn ddigon hyderus i siarad a mynegi eu hunain i'r staff ac i ni. Dangosodd y plant, yn llawn balchder, eu bod wedi lapio darn o ddeunydd shiffon o amgylch eu hunain fel clogwyn. Mae hyn yn rhoi hwb i hunan-barch ac ymdeimlad o gyflawniad y plant.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn meithrin cydberthnasau â'r staff sy'n darparu gofal o ansawdd da yn gyson. Mae'r plant yn fwy na pharod i fynd at y staff am help ac i sgwrsio â nhw, gan ddangos eu bod yn gyfforddus â nhw. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth yn fawr iawn. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn gan fod ardal bersonol ar gyfer eu cotiau a'u bagiau, ac fe'u gwelsom yn defnyddio matiau bwrdd gyda'u henwau arnynt.  Roedd hi'n bleser gweld dau blentyn yn trafod y ffordd roeddent yn defnyddio'r blociau pren â'i gilydd, gan ganolbwyntio am gyfnod o amser yn eu trefnu a'u had-drefnu. Roedd hyn yn dangos bod y plant yn gwneud ffrindiau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff a'r plant eraill. Maent yn gwybod enwau ei gilydd ac yn cydweithio â'r staff wrth symud o un gweithgaredd i'r llall. Dywedodd rhiant wrthym fod gan ei blentyn ffrindiau yno. Mae'r plant yn dechrau rhannu adnoddau. Maent yn cymryd eu tro wrth chwarae gemau, er enghraifft wrth daflu dis mawr yn ystod gêm siapiau. Mae'r plant yn dysgu parchu adnoddau a theganau, sut y dylent gael eu defnyddio a'u rhoi i gadw.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae, ac yn ymgysylltu ag ef. Maent yn cael y cyfle i ymddiddori mewn gweithgareddau megis edafu, gan feistroli'r sgìl corfforol. Clywsom lawer o chwerthin wrth i'r plant fwynhau creu gwenyn a gwneud synau suo. Mae'r plant yn archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr ac yn gallu defnyddio adnoddau yn ystod amser chwarae rhydd. Dywedodd rhiant wrthym fod y plant yn cael hwyl ac yn mwynhau'r hyn y maent yn ei wneud yn y gwasanaeth.

Mae'r plant yn cael digon o gyfleodd i wneud pethau drostynt eu hunain. Roedd llawer ohonynt yn gallu gwisgo eu cotiau eu hunain heb unrhyw gymorth. Caiff y plant eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, megis rhoi eu bagiau i gadw ar ôl bwyta cinio. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau, ac yn rhoi teganau yn eu blychau ar ôl eu defnyddio cyn mynd allan i chwarae yn yr awyr agored.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac maent wedi adolygu'r gwasanaeth a'r gofal yn unol â'r canllawiau yn ymwneud â phandemig COVID-19. Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu plant, ac maent yn gallu siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn petai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu plant. Mae bron pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar gymorth cyntaf pediatrig. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr iach. Mae'r staff yn darparu byrbrydau iach a dyfarnwyd sgôr o bump i'r gwasanaeth am baratoi bwyd. Roedd y staff yn dilyn polisi damweiniau a pholisi rhoi meddyginiaeth yn ddiogel, ac yn eu deall. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd, gan sicrhau bod pawb dan sylw yn gwybod sut i adael y safle mewn argyfwng yn ddiogel.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda â'r plant, gan eu goruchwylio'n gyson a'u helpu i fanteisio i'r eithaf ar y gweithgareddau. Maent yn cefnogi'r plant i reoli eu hymddygiad a hybu eu hunan-barch; maent yn rhoi llawer o ganmoliaeth i'r plant. Roedd y staff yn chwarae cerddoriaeth gefndir i greu amgylchedd hamddenol, ac roedd y plant yn symud o un gweithgaredd i'r llall gyda chymorth caneuon arbennig. Mae'r staff yn creu cyfnodau cymdeithasol ar gyfer y plant, gan gynnwys adeg prydau bwyd, ac yn esiampl dda i'r plant wrth iddynt siarad yn garedig ac yn barchus â'i gilydd. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn siarad yn annwyl am y staff a'u bod yn mwynhau eu gweld yn y gymuned.

Mae'r staff yn dechrau cofnodi arsylwadau ar sgiliau'r plant ac yn cynllunio gweithgareddau i wella eu profiadau chwarae a dysgu. Er bod y person â chyfrifoldeb yn gwneud cynlluniau wythnosol, nid yw'n seilio ei waith cynllunio ar y Cyfnod Sylfaen Cymraeg. Nid yw'r gwaith cynllunio yn adlewyrchu'r cyfoeth o brofiadau y mae'r plant yn eu cael yn effeithiol. Mae'r staff yn hyrwyddo chwilfrydedd drwy'r gweithgareddau a'r adnoddau a ddarperir, megis cregyn ac eirth cyfrif, ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer gweithgareddau a arweinir gan oedolion. Mae'r staff yn ymwybodol iawn o gryfderau, anghenion a hoff bethau'r plant, ac maent yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y plant. Dywedodd rhiant wrthym fod y staff yn gweithio'n galed i baratoi'r ardaloedd dysgu ac yn cymryd amser i egluro pethau i blant unigol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn datblygu amgylchedd da i wella profiadau'r plant. Mae'r safle wedi cael ei adnewyddu'n ddiweddar ac mae ystafell ychwanegol yn cael ei pharatoi i'w defnyddio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi nodi risgiau a chymryd camau gweithredu i leihau neu ddileu'r rhain. Mae'r asesiadau risg yn fanwl ac mae'r staff yn eu dilyn. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn gwybod pa ardaloedd sydd ddim yn hollol ddiogel i'r plant, fel y gegin, nad oes gan y plant hawl i fynd iddi.

Mae'r safle'n addas iawn ar gyfer profiadau chwarae a dysgu'r plant, ac mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd hyn, gan gynnig amrywiaeth o brofiadau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi dechrau gwneud gwelliannau i'r amgylchedd dan do, yn benodol drwy brynu dodrefn newydd. Roedd y person â chyfrifoldeb yn ymwybodol y gellid gwneud gwelliannau pellach ac mae'n bwriadu canolbwyntio ar yr ystafell ychwanegol nesaf. Mae ardaloedd chwarae a dysgu â digon o adnoddau ynddynt ar gael, sy'n sicrhau bod gan y staff y cyfarpar i gynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant. Mae cegin fawr gyda gorddrws i mewn i un o'r ystafelloedd chwarae, gan ei gwneud hi'n hawdd paratoi a gweini byrbrydau. Mae toiledau a basnau ymolchi maint plentyn ar gael sy'n galluogi'r plant i ddysgu bod yn annibynnol. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnwys iard dan do a chae ysgol, ac mae'r staff yn cynnig cyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored bob dydd.

Mae'r adnoddau, y teganau a'r llyfrau'n addas, yn lân ac mewn cyflwr da, gan alluogi'r staff i baratoi gweithgareddau'n hyderus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r staff yn arddangos posteri a gwaith celf lliwgar ac addas yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad i'r plant. Caiff y teganau a'r adnoddau eu storio ar lefel taldra'r plant, gan hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth iddynt helpu eu hunain i'r eitemau hyn. Mae cymysgedd o ddeunyddiau naturiol a synthetig, sy'n golygu y gall y plant drin amrywiaeth o weadau, ac sy'n hyrwyddo ethos ailgylchu.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol, a nodir hyn yn y Datganiad o Ddiben sy'n hawdd ei ddeall. Mae'r ddogfen yn gynhwysfawr, ac yn ystod yr arolygiad gwelsom fod y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant a'u rhieni. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru a'u rhannu â phob aelod o'r staff. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn. Dywedodd rhiant wrthym ei fod yn falch ei fod wedi penderfynu anfon ei blentyn i'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol er mwyn gwneud gwelliannau. Mae'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys agor ystafell ychwanegol a gwella'r gweithgareddau chwarae yn yr awyr agored. Gofynnir am farn y rhieni er mwyn coladu Adolygiad Blynyddol o Ansawdd y Gofal ar gyfer 2020/2021. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn gwybod sut i godi pryder, a gwnaethant ddweud bod ganddynt hyder yn y staff a'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth, gan ddweud eu bod yn gwrando arnynt bob amser.

Mae'r staff yn hapus yn eu swyddi ac yn ymwybodol o'r strwythur rheoli, ac maent yn gwybod â phwy i gysylltu os oes angen cymorth arnynt. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu bob amser. Mae'r broses o recriwtio staff yn gadarn. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod yr holl wiriadau wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod yr ymarferwyr yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau DBS cyfredol. Mae'r arfarniadau blynyddol, sy'n ystyrlon, yn cynnwys hyfforddiant a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad (sef y staff rheolaidd) yn gweithio'n dda fel tîm, gyda phob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn arwain y plant yn briodol. O ganlyniad i hyn, mae'r plant wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan staff brwdfrydig sydd ag agwedd rwydd.

Ceir cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill, ac maent yn cyfrannu at lesiant y plant gan fod modd i'r rhieni ddweud wrth y staff am yr hyn y mae eu plant wedi ei fwynhau yn arbennig. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth. Gall y rhieni siarad â'r staff am ofal eu plentyn pan fyddant yn dod â'u plant neu'n eu casglu. Mae'r arferion hyn yn galluogi'r rhieni/gwarcheidwaid i barhau i fod yn rhan o ofal eu plant. Roedd yr athro ysgol yn canmol y gwasanaeth yn fawr iawn, yn ogystal â'r cynnydd a wnaed ers cofrestru, gan adlewyrchu'r gydberthynas agos â'r ysgol leol.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1** dylai'r aelodau hynny o staff y mae eu tystysgrifau Cymorth Cyntaf wedi dod i ben gwblhau cwrs cymorth cyntaf ar-lein a threfnu lle ar gwrs wyneb yn wyneb cyn gynted â phosibl.

**A2** mae angen i'r gwaith o gynllunio gweithgareddau'n ysgrifenedig fod yn gysylltiedig â'r meysydd chwarae a dylai adlewyrchu'r gweithgareddau a ddarperir.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
| --- |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/06/2021